**Testun ar y sgrin:** Taith i ddarganfod.

**Darluniau ar y sgrin:** Mae Matthew Richards yn cerdded heibio i fynedfa hen dwnnel segur, ac wedyn yn siarad â'r camera yng nghanol coetir.

**Testun ar y sgrin:** Matthew Richards.

**Adroddwr:** Matthew Richards ydw i, a dyma fy lle gwyrdd i.

**Testun ar y sgrin:** Parc Bedford.

**Darluniau ar y sgrin:** Mae arwydd ffordd sy'n pwyntio at Barc Bedford ac yn nodi ei fod yn fan twristiaeth ac yn safle treftadaeth. Mae lluniau coetir ac adfeilion diwydiannol yn parhau drwy'r fideo.

**Adroddwr:** Yr hyn rydw i'n ei hoffi am Barc Bedford yw bod yma gymaint o lefydd i'w harchwilio. Gallwch fynd am dro tawel gyda'ch ci. Gallwch fynd am dro neu heic hir, neu gallwch eistedd a gwylio'r afon yn byrlymu wrth eich traed.

Mae'r hen waith haearn yn arbennig o ddiddorol yma. John Bedford, y dyn roddodd ei enw i'r Parc yma, wnaeth ei sefydlu yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac efallai mai dyma’r enghraifft orau o waith haearn yn y DU. Mae wir yn cyfleu ein treftadaeth ddiwydiannol. Felly, mae’r dewis hwn yma os ydych chi eisiau manteisio arno, ond fel arall mae digon o fannau gwyrdd i'w mwynhau hefyd.

Rydw i'n meddwl efallai mai’r pwynt rydw i'n ceisio ei wneud yw bod llawer o lwybrau gwahanol yma ond eich dewis chi yn llwyr yw pa un rydych chi am ei ddilyn.

**Testun ar y sgrin:** Fy lle gwyrdd i.

Ewch am dro i Barc Bedford.

Ger y Pîl.

Parc Bedford.

Matthew Richards.

Cymryd rhan.

#Fy lle gwyrdd i.

Natural Neighbourhoods dot com.